# Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 255 Pris £1 Mis Mehefin 2023




*Marjorie Thomas*

## Gwarant Archeb Barhaol — *Standing Order Mandate*

I'r Rheolwr *To the Manager*

……………………………………… Banc/ Cymdeithas Adeiladu *Bank/ Building Society*

Debydwch o fy nghyfrif £10.00 ar y 3ydd o fis Awst bob blwyddyn gan ddechrau ar y 3ydd o Awst 2023 neu nes y byddaf yn eich hysbysu'n wahanol.

*Please debit £10.00 from my account on the 3rd of August annually starting on the 3rd of August 2023 or until I advise you to the contrary.*

Yn daladwy i: *Payable to:*

| Banc | Enw'r Cyfrif | Rhif Didoli | Rhif y Cyfrif |
|---|---|---|---|
| Barclays | Cwm*ni* | 20-98-68 | 13980030 |

Enw(au) ar y Cyfrif *Name(s) on the Account*

Cod Didoli ___--___ -- ___ *Sort Code*

Rhif y Cyfrif Account Number

Eich Cyfeiriad *Your Address*

……………………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………………

Cod Post/*Post Code* ……………………………… Rhif Ffôn/ *Phone No* ………………………

Llofnod/ *Signature:* ……………………………………… …. Dyddiad/*Date:.* ………………………

Dychweler y ffurflen hon, os gwelwch yn dda, i'r Trysorydd:

Please return to the Treasurer: Meirion Powell, 13 Heol Tyddyn, Caerffili CF83 1TG

<u>NID I'R BANC/NOT TO THE BANK</u>


**PWYLLGOR a SWYDDOGION**

*Ariennir yn rhannnol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt

**Trysorydd: Meirion Powell:** mpowell0@yahoo.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

**Golygydd Lluniau:** Mary Jones **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney **Cofnodion:** Ann Lewis

**Gweplyfr/ Face book:** Papur Bro Cwmni **Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Dilys Williams

**Gwefan:** Menter Iaith Sir Caerffili.cymru/ Cwmni

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com

**Argraffir gan Tower Print, Bedwas**

# Gwobr Boblogaidd



Os bu dyfarniad yn haeddiannol – haeddiannol iawn – hon yw hi, pan welodd Cyngor Cymunedol Gelligaer yn dda i wobrwyo'r Doctor Elin Jones am ei gwasanaeth amrywiol a diflino i'w chymuned. A fu neb erioed yn fwy agos i'w chymuned nag Elin, sydd ers rhai blynyddoedd bellach yn byw yn llythrennol o fewn tafliad carreg o'r aelwyd le y'i magwyd.

Cafodd Elin ei bedyddio a'i derbyn yn gyflawn aelod yn Siloh pan oedd yr adeilad yn weithredol fel capel. Roedd ei holl deulu yn aelodau yno, ac etholwyd ei thad-cu a'i hewythr yn ddiaconiaid yr achos.  Ers 2004 bu hi'n aelod o'r pwyllgor sydd wedi bod yn rheoli Siloh fel Canolfan Gymunedol Gristnogol a bu'n gadeirydd ar y pwyllgor hwnnw am nifer o flynyddoedd. Ond "gwnewch y pethau bychain" meddai Dewi Sant a dilyn y cyngor hwnnw wnaiff Dr Elin os ond wrth dodi'r biniau allan yno!

Bu ei thad-cu yn helpu i sefydlu Clwb y Bechgyn yn Ystrad Mynach ac wedyn daeth yn Llywydd y Clwb. Dilynodd ei fab yntau, Hywel, ef yn aelod gweithgar o'r Clwb gydol ei oes, ac hefyd fe'i dilynodd ef yn Llywydd - a chafodd Elin y fraint wedyn o gael ei gwahodd i fod yn Llywydd – ac felly  nawr o Glwb i'r Bechgyn a'r *Merched.*

Bu ei mam-gu yn aelod oes o'r Townswomen's Guild gan ddod yn Gadeirydd ac yna'n Llywydd. Mae Elin yn Gadeirydd cangen leol Merched y Wawr sydd yn fath o fersiwn Gymraeg o'r un sefydliad.

Cymraeg oedd ei hiaith gyntaf ac roedd yn bwysig iawn i'w theulu. Bu'n athrawes yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac yn llywodraethwraig yn Ysgol Bro Allta ac mae'n cyfrannu erthyglau yn rheolaidd a diflino i "Cwm*ni*".

Hanes oedd ei phwnc pan yn athrawes ac ers symud yn ôl i Ystrad Mynach yn 2009 mae wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o'n hanes lleol. Hi yw Llywydd Cymdeithas Hanes Gelligaer gan gyfrannu tuag at osod byrddau gwybodaeth i ddathlu dau o'n harwyr lleol yn y gymuned, Llywelyn Bren a Morgan Jones A.S.

Byddai angen sawl tudalen i restri'r holl bethau mae Dr Elin wedi'u cyflawni, yn enwedig o olrhain ei  gyrfa academaidd. Megis ond codi cwr y llên wnawn wrth nodi rhai o'i chymwysterau. Gwelwn iddi ennill M.A. mewn Hanes Modern a Diploma mewn Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Rhydychen, cyn symud i Brifysgol Cymru Aberystwyth i wneud ymchwil bellach i hanes a llenyddiaeth Cymru yn yr Oesoedd Canol. Yno derbyniodd ail M.A. a PhD hefyd ar waith Llywarch ap Llywelyn. Gwnaeth TAR ym Mhrifysgol Caerdydd, a dysgodd wedyn yn Ysgolion Cyfun y Preseli a Rhydfelen cyn mynd ymlaen i Gwm Rhymni cyn cael ei phenodi'n Swyddog Addysg Archaeoleg a Hanes yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.



*Dr Elin yn derbyn y tlws gan y Cynghorydd Martyn James*

Arweiniwyd y gwobrwyo gan y Cynghorydd Martyn James, sy'n gynghorydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ogystal â Chyngor Gelligaer.. Mae Martyn hefyd yn gadeirydd pwyllgor Canolfan Gristnogol Siloh yn Ystrad Mynach ac, felly â gwybodaeth lwyr am waith Elin o fewn ei chymuned.

Gwobrwywyd Elin â thlws hardd iawn yn ogystal â thalebau i'w gwario yn Portofino, bwyta Eidalaidd newydd Ystrad Mynach. Ond doedd neb yn synnu ei bod am rannu'r wobr hon. Yn hytrach na mwynhau'r arlwy  ar ei phen ei hun  penderfynodd fynd â chwe aelod y pwyllgor gyda hi i rannu'r wobr!

# Lluniau Marjorie



Marjorie Thomas ydw i, merch Roy a Wendy Angove, gynt o Bryn Siriol (maent nawr yn byw ger Van Road).

Fe ges i fy magu yng Nghwm Aber, a dysgu Cymraeg yn Senghennydd dan ofal Mrs Davies, Ysgol Ifor Bach.

Rwy'n gyn-ddisgybl Cwm Rhymni, wedi graddio o Aberystwyth, wedi gweithio fel athrawes am 25 o flynyddoedd ac arbenigo mewn llythrennedd ac anghenion dysgu ychwanegol.

Symudais i fyw yn Rhandirmwyn ym Medi 2022, ac mae'n hyfryd bod mewn ardal lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan lanhawyr ysgol nid yn unig yr athrawon!

Ar hyn o bryd rwy'n gweithio ar brosiect ymchwil PhD i greu profion llythrennedd newydd yn y Gymraeg - os oes diddordeb, gallwch ddilyn y project ar Drydar @cannwyllycymry.

Edrychwn ymlaen at groesawi'r Eisteddfod i'r dref – mae wedi bod yn brofiad diddorol darbwyllo fy nghymdogion Saesneg o bwysigrwydd a chynnwrf yr Eisteddfod! Rydym fel teulu nawr yn mynychu capel Coffa Williams Pantycelyn, ac fe fydd y capel ar agor yn ystod wythnos yr Eisteddfod i bobl gael dod mewn am ysbaid, i weld y lle ac i gael paned am ddim. Byddai'n wych i weld rhai ohonoch yno.

Mae'r lluniau hyn yn flas ar harddwch yr ardal. Merch y Cymoedd fyddaf o hyd ond rwyf wrth fy modd yn darganfod corneli newydd o Sir Gâr bob dydd.



*Mwynglawdd Nant y Bai, Rhandirmwyn.*



*Blaenau Tywi, tuag at Bwlch y Rhiw.*



*Gwanwyn yng Ngwarchodfa Natur Gwenffrwd Dinas (RSPB)*



*Edrych mas o Ogof Twm Sion Cati.*



*Yr olygfa dros Rhandirmwyn, Blaenau Tywi*







# PENDERFYNIADAU!

Wn i ddim amdanoch chi, ond ydych chi erioed wedi meddwl bod 'na rai eiliadau yn eich bywyd sy wedi cael effaith fawr ar weddill eich oes? Penderfyniadau efallai a oedd yn ymddangos yn ddibwys ar y pryd ond penderfyniadau a newidiodd gwrs eich bywyd.

Rwy'n cofio yn bymtheg oed, roedd gen i ddewis i'w wneud. A oeddwn i'n mynd i ddilyn cwrs Gwaith Coed neu a oeddwn i am ddilyn cwrs Cymraeg ail iaith? Roeddwn i'n byw yn Y Waun chwarter milltir o'r ffin. Ardal oedd hon gyda neb bron yn ymwybodol o'r Gymraeg heb sôn am ei deall.



*Dafydd gyda Aaron Hayden - chwaraewr*

Mae'n debyg roedd gen i ryw dalent wrth drin pren, wedi'r cwbl roedd fy nhad yn athro Gwaith Metal. Ond roedd o hefyd yn siarad Cymraeg ac er bod mam yn Saesnes roeddwn i wedi clywed y Gymraeg ar ochr fy nhad. Doeddwn i ddim yn gallu siarad yr iaith ond yn deall ambell ymadrodd a rhigwm. Taswn i wedi dilyn yr awydd i drin coed mae'n debyg y buaswn yn saer coed yn gwneud dodrefn, yn ddi-Gymraeg ac yn byw yng Nghroesoswallt. Penderfyniad bach, ond penderfyniad a gafodd effaith hir oes. Penderfynais ar Y Gymraeg.

Roedd pobl Y Waun yn llawer mwy ymwybodol o'u treftadaeth bêl-droedaidd. Wedi'r cwbl, yn yr ardal hon yr eginodd y gêm o bêl-droed yng Nghymru o dan ddylanwad yr athro lleol TE Thomas, ond stori arall yw honna. A dyma ddod at benderfyniad tyngedfennol arall.

Roedd gŵr lleol ,Griff, yn rhedeg bws i'r Cae Ras yn Wrecsam ar adegau gemau cartref ac roedd y bws yn stopio tu allan i'n tŷ ni! Dyma bedwar ohonon ni'n penderfynu mynd un Sadwrn tua 1965. Dyna danio ymrwymiad oes.

Fe ddechreuais i fynd yn rheolaidd a mwynhau canu pethau aflafar tu ôl i'r gôl - bychanu'r tim arall a chanmol ein harwyr ni. Hanner amser, cerdded rownd y cae i'r pen arall a gwneud yr un peth. Roedd bywyd yn syml ac wrth i Griff weiddi byddai'r bws yn aros amdanom wrth dafarn y Turf ar ddiwedd y gêm, roedd hi'n braf teithio adre gan farnu a chanmol a hel rhaglenni a lluniau diri.



*Cacen Pen Blwydd*

Fe gawsom ein dyddiau da iawn yng nghanol y saithdegau gyda'r tim gorau welais i yn chwarae yn beth fasa'n cyfateb rwan i'r Pencampwriaeth. Dyma gyfnod Joey Jones, Dai Davies, Dixie McNeil a Mickey Thomas - arwyr go iawn!

Dyma'r cyfnod hefyd i'r unig un o ardal Cwm*ni* (am wn i) chwarae dros Wrecsam. Amddiffynwr cryf a chyhyrog oedd Wayne Cegielski, bachgen a chwaraeodd ar ddechrau ei yrfa i Gefn Fforest a Bechgyn Pengam cyn ymuno â Spurs a nifer o glybiau gan gynnwys Stuttgart yn yr Almaen, Tacoma Tides (UDA) ac Umes yn Sweden. Chwaraeodd 150 gêm dros Wrecsam. Y diweddaraf glywais i oedd ei fod o wedi symud i ardal Stoke ar ddiwedd ei yrfa.

Ond ar ôl llwyddiant yn ddiau daw cwymp a dyna be ddigwyddodd yn naturiol. Fe gollwyd y rheolwr talentog John Neal i Middlesbrough a Chelsea. Ymhen blwyddyn neu ddwy wrth i'r tîm lithro a llithro fe benderfynodd y perchennog poblogaidd Pryce Griffiths werthu'r clwb. Penderfyniad tyngedfennol arall!!

Cafwyd llu o berchnogion amheus gyda'u bwriad o wneud arian personol yn hytrach na datblygu'r clwb. Prynwyd y clwb gan Alex Hamilton a Mark Gutterman gyda'r bwriad o werthu'r cae a datblygu B&Q ar y safle a thynnu unrhyw werth a oedd yn y clwb. Fe wynebodd y clwb farwolaeth.

# PENDERFYNIADAU!



*Dafydd yn Wembley*

Tynwyd 10 pwynt oddiar cyfanswm pwyntiau'r clwb – canlyniad hyn oedd bod rhaid disgyn adran arall. Fe ddaeth y cefnogwyr ag achos yn erbyn Hamilton i'r Priflys yn Llundain.

Collodd Hamilton ac fe gafodd ei wahardd o fod yn gyfarwyddwr. Yna wynebodd y clwb yr angen i godi dros £100,000 fel ernes. Roedd y gynghrair yn amau a fyddai Wrecsam yn medru talu eu dyledion. Fe gododd y cefnogwyr yr arian mewn diwrnod gan gyflwyno eu morgeisi, eu cynilion a'u cadw mi geis. Ymdrech arwrol i ardal mor ddifreintiedig. Yn y diwedd fe roddwyd perchnogaeth y clwb i'r cefnogwyr ond mi oedd hyn yn gyfnod anodd, anodd tu hwnt!

Nesaf Y PENDERFYNIAD MWYAF!

*Dafydd Roberts*

# Colofn Siaradwyr Newydd

Ydych chi wedi trefnu eich gwyliau haf eto? Fyddwch chi'n mynd dramor, neu i ben draw'r byd efallai? Yn y gerdd sy gyda ni'r mis yma, mae T Llew Jones yn dweud nad oes arno fe eisiau teithio'r byd a gweld gwledydd eraill. Mae Cwm Alltcafan yn ardal ei gartref yn well na phobman arall.

**Cwm Alltcafan**

Fuoch chi yng Nghwm Alltcafan
Lle mae'r haf yn oedi'n hir?
Lle mae sane'r gwcw glasaf?
Naddo? Naddo wir?

Welsoch chi mo afon Teifi'n
Llithro'n araf drwy y cwm?
Welsoch chi mo flodau'r eithin
Ar y llawr yn garped trwm?

A fum i'n y Swistir? Naddo.
Na, nac yn yr Eidal chwaith,
Ond mi fum yng Nghwm Alltcafan
Ym Mehefin lawer gwaith.

Gweled llynnoedd mwyn Killarney
Yn Iwerddon? Naddo fi;
Tra bo rhai yn crwydro'r gwledydd
Aros gartref a wnes i.

Ewch i'r Swistir ac i'r Eidal,
Neu Iwerddon ar eich tro,
Ewch i'r Alban, y mae yno
Olygfeydd godidog sbo.

Ond i mi rhowch Gwm Alltcafan
Pan fo'r haf yn glasu'r byd,
Yno mae'r olygfa orau,
A chewch gadw'r lleill i gyd.

Welsoch chi mo Gwm Alltcafan,
Lle mae'r coed a'r afon ddofn?
Ewch da chi i Gwm Alltcafan,
Peidiwch oedi'n hwy ..... rhag ofn!


*dramor : abroad    i ben draw'r byd : to the ends of the earth    oedi : linger, delay    sane'r gwcw : violets*
*naddo wir ?: haven't you really ?    eithin : gorse    golygfeydd godidog : superb scenery*
*sbo; I suppose    ewch da chi : make sure you go    rhag ofn : just in case*

***Ann Lewis***

# Bardd o'r Talcen Glo

Mor braf oedd cymryd rhan yn Eisteddfod y Rhondda y llynedd, ac ymfalchïo yn llwyddiant to newydd o Gymry i ail-sefydlu eu heisteddfod. Mae llwyddiant parhaol Eisteddfod Cwm Rhymni hefyd yn tystio i ddadeni eisteddfodol yn y cymoedd hyn. Ond dadeni ydy hi: ryw ganrif a hanner yn ôl roedd eisteddfodau safonol ym mhobman yn y cymoedd hyn.

Yn y dyddiau pell hynny, nid oedd addysg ffurfiol ar gael i bawb, ac nid oedd pob ymgeisydd yn y cystadleuthau ysgrifenedig yn raddedig, nac athro ysgol neu weinidog chwaith. Ychydig iawn o addysg ffurfiol oedd ar gael i bobl gyffredin. Ond byddai dynion wrth eu gwaith yn y pwll glo neu'r gwaith haearn yn ystod y dydd wrthi yn eu horiau hamdden prin yn llunio traethodau a chofiannau, ymchwilio i hanes, casglu enwau lleoedd - a barddoni. Cofiwch, roedd y gwobrau ariannol a gynigid yn yr eisteddfodau hynny hefyd yn ychwanegiad gwerthfawr i'w cyflogau.




Yn 1873 un o'r eisteddfodau niferus yn y cymoedd hyn oedd eisteddfod y Coed Duon, a honno'n Eisteddfod Gadeiriol hefyd. Cyhoeddwyd enw'r bardd buddugol - "Dyfedfab" - ond ddaeth neb ymlaen i gael ei gadeirio. Siom i bawb - ac yna sioc i ysgrifennydd Eisteddfod y Coed Duon rai dyddiau yn ddiweddarach pan ddaeth glöwr ifanc yn ei ddillad gwaith brwnt i ofyn am ei Gadair. Honnodd Evan Rees taw fe oedd "Dyfedfab", a'i fod wedi methu â mynychu'r eisteddfod ei hun, oherwydd ei shifftiau gwaith. Ond nawr roedd wedi dod bob cam o'i waith yn Aberdâr i hawlio ei wobr.

Gwrthod y Gadair iddo wnaeth yr ysgrifennydd i ddechrau, ond roedd y glöwr ifanc yn daer, gan fynnu taw ei Gadair ef oedd hi. Yn y diwedd daethpwyd i gytundeb: byddai'r ysgrifennydd yn galw ar arwr eisteddfodau'r ardal, y bardd Islwyn, i ddod draw i ddyfarnu. Ac yn wir, fe ddaeth y bardd mawr. Gofynnodd Islwyn i Evan Rees brofi taw fe oedd awdur y gerdd fuddugol trwy ei hadrodd iddo. Fe ddechreuodd Evan wneud hynny heb unrhyw ansicrwydd, a daeth dagrau i lygaid Islwyn wrth wrando arno. Ebychodd "Dim rhagor! Dim rhagor! Tydi ydyw'r dyn!".

Ceir yr hanesyn hwn gan yr Archdderwydd Trefin, mewn erthygl yn 1950, canmlwyddiant geni Evan Rees. Mae Trefin yn dweud hefyd taw golwg dlodaidd Evan oedd wedi cyffwrdd calon Islwyn yn fwy na'r gerdd ei hun, a taw dyma ddechrau cyfeillgarwch agos rhwng Islwyn a'r bardd o'r talcen glo. Islwyn a'i perswadiodd ef wedyn i newid ei enw barddol. Dyma'r rheswm pam yr ydym heddiw yn sôn am y glöwr Evan Rees fel "Dyfed" – ei enw barddol hyd ddiwedd ei oes.

Roedd Evan yn 23 pan enillodd Gadair y Coed Duon, ac wedi bod yn löwr ers ei blentyndod. Bu'n rhaid iddo fynd i weithio ym mhwll Blaengwawr pan oedd yn wyth oed, wedi i'w dad gael ei ladd mewn damwain. Roedd Jonathan, brawd Evan, wyth mlynedd yn hŷn nag e ac yn gweithio yn y pwll yn barod. Wedi marw eu tad, roedd rhaid chwilio am ddulliau o godi arian i gadw'r teulu niferus – roedd chwe phlentyn ar yr aelwyd, a dau ohonynt yn fach iawn. Felly, penderfynwyd y byddai Evan yn mynd i weithio gyda Jonathan, oherwydd y byddai modd hawlio dram ychwanegol o lo wedyn. Am fod Evan yn rhy ifanc i gerdded yr holl ffordd i'r talcen glo, byddai Jonathan yn ei gario ar ei gefn i'r gwaith.

A dyma ddechrau gyrfa Dyfed, Archdderwydd Cymru o 1906 hyd at ei farw yn 1923, union canmlynedd i'r flwyddyn hon. Dechreuodd farddoni yn ogystal â gweithio yng nghwmni Jonathan ei frawd, wedi i hwnnw gael damwain difrifol dan ddaear yn 1861. Ni allai Jonathan weithio am gyfnod, ac felly aeth ati i ddysgu barddoni. Cafodd addysg arbennig o dda gan feirdd Aberdâr ac fe ddaeth yn amlwg bod dawn ganddo yn y maes. Byddai ei wobrau eisteddfodol yn golygu y gallai, er ei lesgedd, barhau i gyfrannu'n ariannol i'r teulu. Gwelodd Evan botensial barddoni hefyd, a darganfu bod dawn barddoni ganddo yntau hefyd. Yn fuan y dechreuodd y ddau frawd wneud eu marc yn yr eisteddfodau lleol.




Yn ôl Evan, Jonathan oedd y bardd gorau ond Evan aeth ymlaen i wneud ei yrfa ym myd yr eisteddfodau. Os cadair y Coed Duon oedd y gyntaf iddo ei hennill, nid hi oedd yr olaf o bell ffordd. Mae ei fedd ym mynwent Cathays yng Nghaerdydd yn eu rhestri. Serch hynny, Cadeiriau'r Eisteddfod Genedlaethol yn unig sydd yno - a chadair Eisteddfod Ffair y Byd yn Chicago hefyd wrth gwrs! Ond Cadair y Coed Duon yn ein bro ni oedd Cadair gyntaf Dyfed - ac roedd creithiau glas y talcen glo ar ddwylo'r Archdderwydd hyd ddiwedd ei oes.

*Dr Elin Jones*

# Risotto o'r Oergell

Oni ddaw weithiau ryw ysbrydoliaeth i ni wrth edrych ar gasgliad o’r  llysiau llipa hynny sy'n gweld golau dydd am y tro cyntaf ers... wel, dwedwn wythnos, ie? Yn ddiweddar rwy wedi bod wrthi’n ceisio bwyta fy ffordd trwy'r cennin sydd dal gen i yn yr ardd, a chefais sioc y dydd o'r blaen wrth weld hanner cenhinen yng nghefn y drôr salad yn yr oergell. Wps! Roedd wedi bod yno am ddyddiau (o leiaf), ac yn cadw cwmni iddo oedd cwpl o domatos meddal iawn. Roeddwn wedi anghofio amdanyn nhw hefyd. Roedd golwg digon diflas ar y clwstwr bach o lysiau.

Yna cefais syniad. Rwy wedi sôn o'r blaen am rwyddineb gwneud risotto, ac roedd digwydd bod gen i ddigon o wynwns, garlleg a reis, y cynhwysion angenrheidiol ar gyfer y pryd hwnnw. Yn sydyn gwelais yr hen lysiau llipa fel defnydd crai risotto newydd sbon - "risotto oergell"!



Mae'n syml iawn. Cymrwch wynwnsyn a chwpl o hoelion o arlleg ar gyfer pob person, eu torri'n weddol fân a'u rhoi i feddalu mewn sosban neu ffrympan gydag olew'r olewydd. Pan fydd y wynwns yn dryloyw, ychwanegwch hanner cwpanaid o reis ar gyfer bob un a'i droi gyda'r wynwns ar wres isel am gwpl o funudau. Wedyn arllwyswch lond mwg yr un o stoc llysiau -  neu unrhyw stoc, mewn gwirionedd. Rydyn ni'n sôn am argyfwng yn y gegin, wedi'r cyfan. I ddweud y gwir, os oes gennych hen baced o gawl sych yng nghefn eich cwpwrdd, nawr yw'r amser i'w ddefnyddio. Nid pryd *cordon bleu* yw hwn! Ac wrth gwrs, os digwydd bod unrhyw win ar ôl mewn potel na chafodd ei gorffen, gall hwnnw ychwanegu rhywbeth bach ecstra i'r pryd.

Cynyddwch y gwres o dan y sosban nes bod y cynnwys yn mudferwi. Tra bod hynny'n digwydd, torrwch y llysiau'n ddarnau ac ychwanegwch nhw at y reis a'r wynwns, cymysgwch nhw'n dda a chynyddwch y gwres nes bod y cyfan yn mudferwi'n dawel. Dwi ddim yn ychwanegu halen fel rheol, am fod stoc neu gawl paced yn ddigon hallt yn barod, ond mae modd rhoi ychydig o wmff i'r cyfan trwy ychwanegu perlysiau neu sbeis fel tsili neu - fy ffefryn i - paprica mŵg (*smoked paprika)*.

Fe ddylai'r cyfan fod yn barod mewn hanner awr - deugain munud efallai i fod yn ddiogel. Cofiwch ei droi o bryd i'w gilydd er mwyn cadw'r gronynnau reis ar wahân. Os yw'r reis yn llyncu'r dŵr i gyd, ychwanegwch ragor. Mae'n barod pan fydd y reis yn feddal a dim dŵr yn sefyll ar y wyneb. Mae'n ddigon blasus i'w fwyta ar ei ben ei hun, yn fy marn i, ond os digwydd bod darn o gig neu selsig dros ben hefyd yn yr oergell... Byddwch yn ofalus gyda'r rheiny, cofiwch! Mae hen lysiau'n ddiniwed ar y cyfan, ond stori arall yw hi am gigoedd!

## Oedfa o Fawl

## Capel Tonyfelin, Caerffili

### Dydd Sul Mehefin 18fed 6.00 pm

Arweinydd: **Marc Jon Williams**
Organydd: **Helen Hollyman**

yng nghwmni
**Côr Meibion Ystrad Mynach**

Croeso i bawb

Lluniaeth ysgafn yn dilyn yr oedfa

# Newyddion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni

**YN DATHLU LLWYDDIANNAU, GYDA'N GILYDD**

***Beth am ymuno gyda'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol gan ddarllen am ein hanesion a'n llwyddiannau @Cwmrhymni ac ar ein tudalen Facebook CGhA, Teulu Cwm Rhymni?***

## HWYL AM Y TRO!






Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 10, 11, 12 a 13 sydd wedi bod yng nghanol eu harholiadau; penllanw ar flynyddoedd o addysg Gymraeg. Braf oedd cael gweld eu campweithiau prydau tri chwrs yn cael eu paratoi yn yr adran lletygarwch a gweld yr amrywiaeth anhygoel o waith creadigol yn yr adrannau celf a thecstilau yn ogystal â gwylio rhai dramâu unigryw yn cael eu perfformio gan ein dysgwyr sy'n ymgymryd â drama. Pob lwc i bob un o'r bobl ifanc sydd wedi sefyll arholiadau allanol yn ddiweddar a chofiwch fod gennym ni ffydd ynoch chi i gyd ac rydyn ni yma i'ch cefnogi os oes angen unrhyw gyngor neu arweiniad pellach arnoch chi

## DINASYDDION EGWYDDOROL Y DYFODOL!

Mae'r cwricwlwm newydd a'r Fframwaith Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd eisoes wedi lansio gyda'n disgyblion presennol ym Mlwyddyn 7 ac 8 . Ers mis Medi, mae ein disgyblion wedi ymgymryd â chyfres o brosiectau cyffrous a thasgau trawsgwricwlaidd. Maent hefyd wedi derbyn gwasanaethau thematig gyda siaradwyr gwadd a staff addysgu ar draws y ddau safle. Y tymor hwn, rydym wedi treialu ein cyflwyniadau Lles gyda Blwyddyn 8 ac wedi bod yn hynod falch gyda'r adborth gan ddisgyblion a staff.




Fe gwblhaodd holl ddisgyblion CA3 a 4 arolwg cenedlaethol ar eu hiechyd a lles. Roedd yr arolwg yn ystyried y canlynol :

- Iechyd Corfforol (gan gynnwys diet, arferion cysgu, arferion bwyta, alcohol / ysmygu / arferion anwedd)
- Cyrhaeddiad a chynnydd (trafod sut roedden nhw'n teimlo eu bod yn perfformio yn yr ysgol)
- Iechyd meddwl ac a oeddent yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ddigonol
- Perthnasoedd (e.e. pa mor ddiogel yr oeddent yn teimlo yn yr ysgol ac a oedd ganddynt ffrindiau yn yr ysgol)

Yna cwblhaom ein holiadur ysgol ein hunain sy'n casglu llais y disgyblion gan ystyried eu:

- Hyder i ateb yn y dosbarth
- Gallu i ganolbwyntio yn y dosbarth
- Hymdeimlad o ddiogelwch yn y dosbarth a'r ysgol
- Hymdeimlad o hunanwerth neu werth yn yr ysgol



Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn ein galluogi i gynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod a chanolbwyntio ar ba sesiynau lles dylsem flaenoriaethu.

Mewn ymateb i'r holiadur, derbyniodd y disgyblion werth pythefnos o wersi a chyflwyniadau ysbrydoledig ac ysgogol ar yr angen digyfaddawd am ddiogelwch, parch a charedigrwydd tuag at ei gilydd, yn yr ysgol ac yn y byd ehangach. Treuliodd holl athrawon Blwyddyn 8 amser yn eu gwersi hefyd yn trafod y themâu, gan annog deialog a dadl iach ymhlith eu dosbarthiadau a gwahoddwyd disgyblion unigol i siarad yn onest gyda'r arweinwyr Lles.

Mae'r adborth gan ddisgyblion a staff wedi bod yn hynod gadarnhaol ac rydym yn bwriadu cwblhau'r holiadur unwaith eto cyn diwedd y tymor i weld a yw'r gweithgareddau hyn wedi cael yr effaith ddymunol.

Yng Nghwm Rhymni, credwn fod POB PLENTYN YN BWYSIG a bod yn rhaid i lais y disgybl chwarae rhan annatod wrth gynllunio, teilwra a chyflwyno addysgu a dysgu. Rydym yn falch o fod yn dîm o staff sy'n annog cyfathrebu'n eglur â'r holl rhanddeiliaid. Rydym yn falch o fod yn ysgol sy'n ymateb yn rhagweithiol i bryderon a godir gan ein rhanddeiliaid mwyaf gwerthfawr, sef ein disgyblion. Mae unrhyw fath o angharedigrwydd bwriadol yn cael ei gymryd o ddifrif ac mae hon yn neges sy'n cael ei throsglwyddo'n glir iawn ac yn gyson i'n disgyblion.Neges gref sydd gennym felly ar ddiwedd ein tudalen flaen ichi fel rhieni a gwarcheidwaid i gysylltu ar frys os oes gennych unrhyw bryderon er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu perthnasoedd cartref-ysgol cryf ac iach fel ffordd o fodelu arferion cadarnhaol ar gyfer ein plant.

## DIOLCH YN FAWR!




Diolch yn fawr iawn i'n teuluoedd gwych am gefnogi  elusen yr Is-bwyllgor Elusennol y tymor diwethaf sef  APCymru yn ystod ein hwythnos Niwroamrywiaeth. Llwyddon ni gyda'n gilydd i godi £293.68 . Os oes gennych chi blentyn neu aelod o'r teulu sy'n niwroamrywiol ac angen cymorth, mae APCymru yn elusen leol sy'n cynnig cymorth ac arweiniad i unrhyw un sydd ei angen. Diolch!

Treuliom hefyd wythnos yn canolbwyntio ar yr angen am hunanofal er mwyn gofalu am ein hiechyd meddwl. Diolch i Mrs Rhiannon Davies am drefnu'r sesiynau gwych yma a diolch i Miss Spiller am ei gwasanaeth 'Ewyllys Da'.

## AR RÂS I DDYSGU!

Daeth EESW Stem Cymru i'r  ddau safle ym mis Mai i roi cyfle i ddisgyblion blwyddyn 8  rasio ceir 'Formula 1' - modelau bychain o'r ceir go iawn, wrth gwrs! Dyma uchafbwynt gwersi gwyddoniaeth y  disgyblion wrth iddynt fwynhau adeiladu ceir cyn eu mireinio a'u haddasu er mwyn eu gwneud yn gystadleuol. Pleser oedd eu gweld yn rasio'r ceir yn y neuadd a'r stiwdio ddrama gyda phob disgybl yn cael sioc ar ba mor gyflym roedd y ceir yn symud! Braf oedd gweld y disgyblion yn mwynhau dysgu dilys gan droi theori wyddonol am liflinio mewn i dasg ymarferol! Nifer o luniau a fideos ar gael ar Drydar yr adran @gwyddYGCRh



# Morgan John Rhys (1760 –1804)

Credai hen drigolion Llanbradach am flynyddoedd lawer bod yno Ysgol Sul yn fore iawn. Roedd y stori wedi'i throsglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth fod gan ardal Llanbradach Ysgol Sul cyn diwedd y ddeunawfed ganrif, ddwy flynedd lawn cyn i Thomas Charles sefydlu ei ysgolion ef.


*Yr Hen Dŷ Cwrdd,Cefn Hengoed*

A'r sawl fu'n gyfrifol am hyn oedd gŵr o'r enw Morgan John Rhys, un a fagwyd yn fferm y Graddfa, uwchben Llanbradach, flynyddoedd cyn sefydlu'r pentref yno. Ond un a ddaeth yn fwy adnabyddus am gyhoeddi'r 'Cylchgrawn Cymraeg' ac a wnaeth ei farc mewn sawl man arall yn ystod ei oes fer. Derbyniodd ei addysg gynnar yn un o Ysgolion Cylchynol Gruffydd Jones ac aeth ymlaen i dderbyn addysg bellach yn Fferm y Cwm, Caerffili dan ofal y Parchedig David Williams, Pwllypant.

Dechreuodd Morgan John Rhys bregethu pan oedd tua un ar hugain mlwydd oed ac yn un o aelodau ifanc Capel Hengoed.(1650) yng Nghefn Hengoed. A'r capel hwnnw a'i cymeradwyodd i'r Coleg Diwinyddol ym Mryste. Ond gadawodd y coleg, heb ganiatâd, a'i ordeinio'n weinidog ym Mhen-y-garn, Pont-y-pŵl yn 1791.

Bu'n teithio draw i Fryste ar fusnes gyda'i dad a chredir iddo ddod dan ddylanwad pobl fel Robert Raikes. Ond mae'n annhebyg mai Ysgol Sul Seisnig y sefydlwyd ganddo oherwydd dywedir mai modd o gadw pobl yn ufudd i'r gyfraith oedd yr Ysgol Sul Seisnig tra, yng Nghymru, roedd gwir ddymuniad i roi addysg grefyddol i'r werin.

Anodd credu i Morgan John gerdded y tair milltir a hanner i'r Hen Dŷ Cwrdd yng Nghefn Hengoed i addoli ac yna denu eraill, oedd wedi cerdded pellteroedd tebyg, nôl i'w gartref yn y Graddfa i'r Ysgol Sul. Oni fyddai wedi bod yn haws cynnal yr Ysgol yn y capel? Mae'n debycach, felly, mai Ysgol Gylchynol a gynhaliwyd yng nghartref ei rieni ond, efallai iddo gynnal Ysgol Sul ym Mhen-y-garn. Cred y Parchedig Edward Evans, Dowlais iddo sefydlu Ysgol Sul yn Hengoed yn 1787.

Ond nid wrth sefydlu ysgolion yn unig y bu'r gŵr yma'n arloesol. Ddiwedd 1791 aeth i Ffrainc yn dilyn y Chwyldro. Yno bu'n pregethu rhyddid yn erbyn Pabyddiaeth. Dychwelodd i Gymru yng Ngwanwyn 1792 gyda'r bwriad o ddychwelyd i Ffrainc, lle'r oedd wedi sefydlu eglwys ym Boulogne, ond methodd godi'r arian angenrheidiol. Ond wrth wneud hyn roedd eisoes wedi dechrau dosbarthu Beiblau mewn gwlad arall, a hynny ddeuddeg mlynedd cyn sefydlu'r Gymdeithas Feiblaidd.

Yn 1793 cyhoeddodd "Y Cylchgrawn Cymraeg neu Drysorfa Gwybodaeth" am y tro cyntaf. Yn Nhrefeca oedd hyn ond er mai ond pum rhifyn a gyhoeddwyd bu'n rhaid eu cyhoeddi mewn amryw fannau. Roedd hyn am fod pobl yn ofnus o'i syniadau. O ddarllen y Cylchgrawn gwelir bod erthyglau ar wyddoniaeth, llenyddiaeth a materion eraill. Ond roedd yr hinsawdd wleidyddol mor anodd yn sgîl y chwyldro yn Ffrainc fel mai anodd iawn oedd mynegi barn o unrhyw fath.

Bu'r ysfa i fynd i'r America yn gryf ynddo am rhai blynyddoedd ac o'r diwedd fe hwyliodd allan o Lerpwl ar y 1af o Awst 1794 ar fwrdd y 'Port Mary' gyda llawer o bobl o'r Bala a Llanbrynmair. Dywedir mai dianc oedd ar y pryd am fod yr awdurdodau ar ei ôl oherwydd cynnwys ei Gylchgrawn ac felly does dim modd bod yn gwbl sicr ai mynd o'i fodd a wnaeth neu beidio.

Setlodd yn Beulah, lle sefydlodd dreflan aflwyddiannus o'r enw Cambria gan greu cwmnïau Cymraeg a'r "Cambrian Settlement" sef ysgolion a llyfrgelloedd gyda'r bwriad o greu gwladfa. Ond roedd awdurdodau'r Byd Newydd yn fwy awyddus i weld cymunedau integredig ac felly yn erbyn yr arwahanrwydd hwn.

Sefydlodd Eglwys Gristnogol yno ar gyfer Bedyddwyr, Methodistiaid ac Annibynwyr ac yn 1796 sefydlodd ysgol ac ysgol Sul a'r rhain, wrth gwrs, yn rhad ac am ddim. Aeth ati i gychwyn papur newydd "The Western Sky" yn 1798.

Bu'n ddewr iawn yn ochri gydag Indiaid Brodorol Gogledd America a'r caethweision croenddu. Gwnaeth safiad dewr gan areithio'n rymus yn erbyn y modd yr oedd dinasyddion y wlad newydd hon yn cymryd mantais annheg o'u cyd ddynion. Mae'n sicr fod ei waith yn berthnasol i'r mudiad cyfredol 'Du ac yn Cyfri' (*Black Lives Matter).*

Yn y diwedd, yn yr ardal hon fe'i gwnaed yn Ustus Heddwch ac yn Farnwr Cynorthwyol gan ddal nifer o swyddi cyhoeddus pwysig eraill.

Bu farw ar y seithfed o Ragfyr 1804 ddiwrnod cyn cyrraedd ei ben blwydd yn bedwar deg a phedair oed ac fe'i claddwyd yn Somerset, Pensylvania. Boddi yn agos i'r lan fu ei hanes. Gallai fod wedi ennill hyd yn oed mwy o anfarwoldeb. Petai wedi bod fel arall, efallai mai ef y byddem heddiw yn cydnabod fel sefydlwr ein Hysgolion Sul; neu ef allai fod wedi bod yn gyfrifol am y Gymdeithas Feiblaidd Brydeinig a Thramor. Ond ef yn sicr sefydlodd y cylchgrawn cyntaf i ddelio â materion cyfoes yn yr iaith Gymraeg.

Maer plac a ddadorchuddiwyd yng nghapel Seion y Bedyddwyr Cymraeg yn Llanbradach yn 1944 i ddathlu hanner canmlwyddiant ers sefydlu'r capel a hefyd clirio'r ddyled a godwyd i adeiladau'r capel. Mae hefyd yn dathlu 140 mlynedd ers marw ein harwr. Hefyd dyma emyn o'i eiddo

**Toriad y Wawr (1794)**

Mae'r wawr yn torri draw,
A'r dydd yn agosáu
(Mae'r byd mewn poen a braw)
A'r plant yn llawenhau:
Gorthrymwyr byd sy'n crynu i gyd,
A'r plant yn canu am bwrcas drud.

Mae' prynu gwerthu dyn
Yn awr bron dod i ben;
Ni waeth pwy liw neu lun
Fo dynion is y nen:
Maent holl yn wrthrych cariad rhad,
Maent oll yn perthyn i'r un Tad.

Mae Affric fras, fu'n gaeth
Flynyddoedd hir, yn dod
I dderbyn mêl a llaeth
Trwy drefen ffaith y rhod:
Caiff caethion byd ar fyr ryddhad
Mewn jiwbil berffaith, pwrcas gwaed.

Llewyrched dwyfol ras
Dros greigiau eitha'r byd;
Cyhoedder eto i ma's
Efengyl bur o hyd,
Nes ddelo'r Ethiop dua'i liw,
I garu a chanmol tras fy Nuw.

Dywed yr Athro E.Wyn James: "Ar fater yr Ethiop yn yr emyn, nid cyfeiriad 'hiliol' sydd yno, mewn gwirionedd, ond un 'Beiblaidd', ac yn gyfeiriad yn arbennig at ddyn o Ethiopia yn cael tröedigaeth ac yn cael ei fedyddio (Actau 8:26-39). Rhag ofn y bydd o ddiddordeb, rwy'n yn trafod ychydig ar emyn MJRh a'r cyfeiriad at yr Ethiop mewn erthygl sydd ar gael yn electronig yma (tua hanner ffordd trwy'r erthygl):

https://www.cardiff.ac.uk/cy/special-collections/subject-guides/welsh-ballads/caethwasanaeth-ar-beirdd"

*Bydd llun o'r plac er cof am Morgan John Rhys o gapel Seion , Llanbradach, yn y rhifyn nesaf.*

## *Shwt ma'r ardd yn edrych?*

Mae rhai yn disgrifio garddio fel brwydr rhwng y garddwr a natur. Mae'r frwydr honno wedi amlygu ei hun yn ddiweddar yng ngerddi urddasol ac enwog Sioe Flodau Chelsea. Mae'n debyg bod dadl yno rhwng y rhai sydd o blaid gerddi twt a threfnus (ac felly am ddistrywio pob planhigyn a ddisgrifir ganddynt fel "chwyn") a'r garddwyr sydd yn credu y dylai natur gael ei ffordd ei hun (ac yn cyfeirio at yr union un planhigyn fel un "gwydn". Mae'n ddadl bwysig, mewn gwirionedd, oherwydd mae'n mynd at un o broblemau mawr y byd heddiw - dirywiad yr amgylchedd. Mae'r lleihad aruthrol yn niferoedd pryfed yn peri pryder i wyddonwyr, sy'n priodoli'r lleihad i'r defnydd cynyddol o gemegau i ladd chwyn a dulliau modern eraill o ffermio - a garddio.



Fel llawer o bobl, rwy'n siŵr, rwy'n trio cerdded y ffordd ganol - osgoi defnyddio cemegau yn yr ardd, peidio â chwynnu (ie, chwynnu!) yn rhy fanwl, rhoi lle i fywyd gwyllt os yn bosibl ac ati. Ac mae natur ei hun yn gallu addurno'n gerddi gyda syrpreisys bach i ni hefyd, os rhown gyfle iddi.



Un o'm hoff flodau yw'r pansi neu lysieuyn y drindod, ond rwy wedi cael fy siomi droeon. Byddaf yn prynu planhigion iachus, neu'n cael rhai gan ffrindiau, eu plannu a gofalu'n dyner amdanynt - ond methu a wnânt bob tro. Caf ryw hanner dwsin o flodau pert, ac yna mae'r planhigion rywsut yn colli'r awydd i fyw. Rwy wedi hen roi'r gorau i geisio eu perswadio i flodeuo yn fy ngardd i. Ond yn ddiweddar, wrth



fwrw golwg dros rai o'r potiau sydd gen i ger y drws cefn, dyma fi'n darganfod pansi bach, bach oedd wedi ymgartrefi wrth ochr y lafant -sydd ddim yn edrych yn rhy sbesh, i ddweud y gwir. Ond mae golwg arbennig o iach ar y blodyn bach a chroeso mawr iddo, wrth gwrs. Yna, nes ymlaen, sylwais ar bansi bach arall, gwahanol, sydd wedi llochesu wrth ochr rhosyn sydd hefyd mewn pot gen i. Nid fi ond natur blannodd y rhain, ac felly rwy'n siŵr taw "chwyn" fyddent i'r garddwyr hynny sydd o blaid gardd drefnus, dwt. Ond i fi - wel, rwy'n eu hystyried fel bendith natur ar fy ymdrechion yn yr ardd.

Fe gofiwch hefyd, efallai, am fy mhryderon dros y pys pêr a blannais yn hwyr iawn ac yn y potiau anghywir. Trawsblannais rai ohonynt i botiau mwy addas, lle maen nhw'n edrych yn eitha' addawol, ond gadewais rai i fod (roedd yn dechrau tywyllu a bwrw glaw'r diwrnod hwnnw). Taflais y pridd oedd dros ben i botyn sbâr oedd gen i gerllaw- ac wele! Dyma blanhigyn iachus iawn yn tyfu yno: roedd un hedyn wedi cael ei adael yn y pridd a daflais naill ochr, mae'n debyg. Dyma fel mae natur yn ein hatgoffa taw hi sydd pia'r gair olaf bob tro. Rhoddaf ragor o bys pêr bach yn y potyn i gadw cwmni iddo heno, a bydd gobaith gen i am botyn arall hardd

## Llongyfarchiadau a

## 90 Phen blwydd Hapus Iawn oddi wrth "Cwm*ni*"

Ein dymuniadau cynhesaf i Mrs Dorothy Morgan a Mr Edward Cornish ar gyrraedd carreg filltir nodedig ym mis Mai. Roedd y dau yn dathlu pen blwydd yn 90 oed

Bu Dorothy yn Bennaeth am flynyddoedd lawer ar ôl bod yn Ddirprwy am gyfnod yn Ysgol Gymraeg Caerffili tra bu "Eddie" yn ofalwr tan ei ymddeoliad bum mlynedd ar hugain yn ôl.

Pen blwydd Hapus Iawn i chi'ch dau!

# Colofn Dafydd Islwyn



Yn y golofn mis diwethaf soniwyd am yr englynwr Carnelian. Yn ddiweddar, wrth chwilio am englyn gan Dewi Wyn Eifion (1784-1841) am Gob Porthmadog yn 'Pigion Englynion Fy Ngwlad' - golygydd Eifionydd Cyfrol 1, 1881 a chyfrol 2 1882, - gwelais fod ynddynt chwech o englynion gan Carnelian. Ei englyn cyntaf yn y casgliad ydy 'Cusan':

Dyfeisiad i wefusau yw cusan,
Ac asydd teimladau;
A serch hynod rhwng dau
Gariad a sêl ei geiriau.

Yr hanesydd arbennig R. T. Jenkins (1881-1969) a ysgrifennodd amdano yn atodiad Bywgraffiadau Cymraeg (1941-50). Ganwyd Coslett Coslett, glöwr a bardd, yn Nant y Ceisiaid, 15fed o Ebrill 1834, Machen. Symudodd y teulu yn fuan wedyn i Fedwas. Athro barddol Carnelian oedd Caledfryn, a oedd yn weinidog yn y Groes-wen, o 1857 hyd 1869 ac o dan ei ddylanwad datblygodd yn englynwr cystadleuol. Bu ef farw ar y 25ain o Ebrill 1910 a chladdwyd ef ym mynwent y Groes-wen.

Wythnosau yn ôl dywedais gelwydd wrth y golygydd! Dywedais yn falch fod gen i lyfr ail law a fu yn llyfrgell Tawelfryn, a'i fod wedi torri ei enw arno. Celwydd noeth! Cyfrol o lyfrgell y Parchedig D. Jones a fu'n weinidog capel Bethel (A) Caerffili o 1910 hyd ei farwolaeth yn 1930 sydd gennyf. Y gyfrol ydy Tywynog, y gyfrol goffa a olygwyd gan Dyfed. Torrodd ei enw arni yn Hydref 1912.

Doedd awduron llyfrau ddechrau'r ganrif ddiwethaf ddim yn derbyn grant i gyhoeddi eu gwaith a rhaid oedd iddynt ddibynnu ar danysgrifwyr. Wrth ddarllen rhestr y tanysgrifwyr yng nghofiant Tywynog ac un Ieuan Gwynedd gan Tawelfryn, sylwais bod y Parchedig R.E. Peregrine B.D., Rhymni, a'r Parchedig J. R. Salmon, Pontlotyn, wedi tanysgrifio i'r ddwy gyfrol. Tybed a oes camgymeriad yn rhestr tanysgrifwyr cofiant Ieuan Gwynedd? Nodir bod y Parchedig J. James, Noddfa Senghenydd, wedi tanysgrifio; onid y Parchedig J. Jones a ddylai'r enw fod? Yn y gyfrol Pebyll Seion, hanes capeli ardal Caerffili a olygwyd gan Tawelfryn ac E. Bush yn 1904, dywedir mai gweinidog capel Noddfa (A) oedd y Parchedig James Jones.

1901 hyd 1910, ei ofalaeth gyntaf, derbyniodd alwad i Garneddi, Bethesda, Sir Gaernarfon, bryd hynny. Enillodd ef ar yr englyn 'Cyfnos' yn y Genedlaethol, Wrecsam 1912. Ym mis Ionawr 1924 derbyniodd alwad i fod yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Y Bermo. Ymddeolodd yn 1948 ond daliodd fyw yn y dref weddill ei oes. Bu farw ar yr 21ain o Fawrth 1965 dair wythnos yn brin o'i ben-blwydd yn 96 mlwydd oed. Cofiaf amdano fel yr un a enillodd gystadleuaeth yr englyn dair ar ddeg o weithiau yn Eisteddfod Môn rhwng 1922 i 63 a bu'n gyd-fuddugol unwaith. Rhwng 1912 a 1964 enillodd o leiaf 26 gwobr arall yn Adran Llenyddiaeth Eisteddfod Môn.

Y diwrnod o'r blaen deuthum o hyd i'r hyn a ysgrifennodd Trefin yn ei Atgofion am Dyfed, 'Llafar Gŵyl Dewi 1955' am ei englyn buddugol yn y Genedlaethol 1911. "Pan ofynnais iddo beth a'i tynnodd i gystadlu megis yn ei hen ddyddiau, yng Nghaerfyrddin, atebodd "dim ond tipyn o sbeit yn erbyn rhai o'r gogleddwyr yno sydd mor uchel eu cloch y dyddiau hyn." Y mae ei englyn 'Dail yr Hydref' wedi ei ddwyn i go', dywedodd yn ei atgofion.

Hydref ddail, dorf eiddilaf, - sy'n eu trem
Yn sŵn troed y gaeaf;
Treuliant eu horiau olaf
Ar ingol ddôr angladd haf"

Yn ôl 'Bro a Bywyd Aneirin Talfan Davies' (1909-80) yn 1951 cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o 'Llafar', cylchgrawn yn cynnwys sgyrsiau, storïau a barddoniaeth Radio. Yn y gyfrol ceir hanes stiwdio'r BBC yn Abertawe. Gŵr fu'n gynhyrchydd dawnus yno oedd John Griffiths (1907-80); ef oedd yn gyfrifol am raglnni fel 'Teulu Tŷ Coch' a 'Theulu'r Mans' yn y pumdegau. Canmolwyd ei raglenni nodwedd gan wrandawyr hefyd. Brodor Gelligaer oedd ef. Mab i siopwr a'i wraig a'u gwreiddiau yn Sir Benfro, lle treuliai ef ei wyliau ysgol.

# Yr Awyren ar y Mynydd

Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Gymraeg Caerffili wrthi'n ymchwilio i mewn i hanes awyren a fu mewn gwrthdrawiad ar Fynydd Caerffili adeg yr Ail Ryfel Byd. Yma maent yn rhannu ffrwyth eu hymchwil â ni.

Mae'r gofeb ar fynydd Caerffili yn cofio am beilot ifanc o Ganada a ddaeth i Brydain i helpu'r wlad hon i'w hamddiffyn ei hun yn erbyn y Natsïaid. Ei enw oedd Ivan Raymond Trafford ac fe gwympodd ei awyren o'r awyr yn ystod taith hyfforddi ar y 7fed o Dachwedd 1941. Cafodd Ivan ei eni yn East Centreville, New Brunswick, ar 11eg Ebrill 1921. Roedd ei rieni, Clinton a Gladys, yn ffermwyr.



Yn 1939, bu'n astudio peirianneg coedwigaeth ym Mhrifysgol Brunswick. Yna enillodd gymwysterau i fod yn Ail Lefftenant yn y Gynnau Mawrion (*Heavy Artillery*). Fel llawer o ddynion o Ganada o'i oed, ymunodd â Llu Awyr Brenhinol Canada (RCAF) ym mis Hydref 1940 a gwelwyd yn fuan ei fod yn ddeunydd peilot da. Felly, ar ôl hyfforddi yn Ontario, ac yn Lloegr, teithiodd Ivan i Gymru yn 20 oed i helpu yn yr ymdrech i drechu Hitler. Cafodd ei anfon i ganolfan hyfforddi'r RAF yn Llandŵ, Bro Morgannwg. Yna, ar 15fed o Hydref 1941, difrododd Spitfire wrth lanio'n gynnar ar redfa Llandŵ. Roedd wedi hedfan mewn Spitfire ond am gyfanswm o 90 munud.

Y 7fed o Dachwedd 1941 oedd y diwrnod y cafodd gyfle i ddod yn fwy cyfforddus â'r awyren bwerus – y Supermarine Spitfire. Mewn tywydd da ar 7fed o Dachwedd 1941, dechreuodd daith hyfforddi o awr. Roedd hyn yn cynnwys 45 munud o hedfan ac 15 munud o aerobatics.Ond erbyn hyn gwelwn mai dyma fyddai taith olaf Ivan Trafford oherwydd am 12.50 y.p. bu mewn damwain yng Nghae Coed Cae, Cefncarnau, Mynydd Caerffili.

Daeth yr ymchwiliad swyddogol i'r casgliad iddo ddringo mor serth fel nad oedd yr adenydd bellach yn rhoi digon o 'lifft' i'r awyren, ac na allai adennill rheolaeth ar y Spitfire. Torrodd yr injan allan a throellodd yr awyren, gan ffrwydro'n fflamau ar ôl bwrw'r ddaear. Aed â chorff Ivan i Ysbyty Glowyr Caerffili. Cafodd ei gladdu yn Llanilltud Fawr, sydd yn fwy na 3,000 o filltiroedd o'i gartref yn New Brunswick. Derbyniodd anrhydeddau milwrol llawn am ei ymdrechion.

Yn ei lythyr olaf adref i'w rieni ym mis Hydref 1941, ysgrifennodd: "*If I must pay the big price it will be OK. I will be happy and feel highly honoured to know that I, just one fifth of the family, was the one chosen, and that I was ready and capable of paying the necessary price for the guarantee of the other four fifths of the family's future freedom and happiness.*"




Dechreuodd y syniad ar gyfer y gofeb ar ôl i Harry Lewis a Matthew Ferris ddod o hyd i adroddiad heddlu am y ddamwain yn Archifau Morgannwg. Bachgen ysgol oedd Harry Lewis adeg y ddamwain, ac roedd Mr Ferris, tan yn ddiweddar, yn athro hanes yn Ysgol Sant Martin yng Nghaerffili. Addawodd y ddau godi cofeb er anrhydedd i Beilot Trafford gyda chymorth gan y Lleng Brydeinig Frenhinol (*Royal British Legion*) Caerffili.

Yn 2019, creodd Chris Lloyd ffilm am y ddamwain ac enw'r ffilm "*The Caerphilly Spitfire Crash*". Gwelwyd y ffilm gan hanesydd lleol o'r enw Ian Hodgkiss a oedd yn gwybod bod darn arian o Ganada (dyddiedig 1939) wedi ei ddarganfod ger safle'r ddamwain gan Huw Trivett yn yr 1980au. Credir i Ivan gario'r darn arian fel swyn lwcus.

Daeth Ian o hyd i'r datgelydd metel yr oedd Huw Trivett wedi defnyddio i ddod o hyd i'r darn arian. Gyda chymorth Chris Lloyd, defnyddiodd y tri gyfryngau cymdeithasol i ddod o hyd i David Trafford, nai Ivan, yng Nghanada, er mwyn dychwelyd y darn arian iddo. Fe'i rhoddwyd i David Trafford, nai Ivan, yn 2022. Mae'r darn arian wedi'i aduno gyda'i deulu 3,000 o filltiroedd i ffwrdd ac 80 mlynedd yn ddiweddarach.

## "Bydd Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Priffyrdd yn Arwain at Ddinas Fwy Iach i Bawb sy'n Byw a Gweithio yng Nghaerdydd," meddai Sustrans Cymru


Mewn ymateb i ddatganiad gan Gyngor Caerdydd ynglŷn â'u bwriad i gyflwyno system o daliadau ar ddefnyddwyr ffyrdd, dywed Cyfarwyddwr Sustrans Cymru, Christine Boston:

"Yn Sustrans, credwn y dylai dinasoedd a threfi fod yn fannau sy'n rhoi blaenoriaeth i bobol sy'n byw ac yn treulio amser yno. Mae mannau lle mai ceir sydd yno'n bennaf yn creu tagfeydd ac mae'n andwyol i'n hamgylchedd a'n hiechyd. Mae ganddynt lai o le ar gyfer cerdded, seiclo a threulio amser ynddynt - y pethau sy'n gwneud ein bywydau'n well ac yn ychwanegu at ein hapusrwydd. Mae hyn yn niweidio'r bobol sydd eisoes fwyaf difreintiedig.



"Mae'r ymroddiad newydd yma gan Gyngor Caerdydd i wneud gwaith archwiliol gyda modelau codi ar ddefnyddwyr heolydd, yn gam cadarnhaol tuag at greu dinas fwy cyfiawn, iach a haws byw ynddi ar gyfer pawb sy'n byw a gweithio yng Nghaerdydd. Gwelwn y potential i leihau tagfeydd a hyrwyddo teithio cynaliadwy, iach, tra byddwn hefyd yn creu cronfa ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus. Gallai hyn ddarparu rhywbeth amgen a real i yrru ar gyfer llawer o bobl, gan ei gwneud hi'n haws a mwy fforddiadwy i ddewis mathau o drafnidiaeth gynaliadwy.

"Mae'n rhaid i unrhyw system gael ei llunio gyda thegwch mewn golwg. Rydym yn gwybod bod effeithiau llygredd yn yr awyr a thagfeydd yn aml yn effeithio'n fwy difrifol ar gymunedau ag incwm isel a phobol gydag anabledd. Drwy sicrhau fod y cynllun yn deg, yn y ffordd y codir y taliadau ac yn unol â'r mathau o ymyriadau a'r mathau o ardaloedd lle bydd y nawdd yn cael ei ail-fuddsoddi, gallwn weithio tuag at greu dinas decach a mwy cynaliadwy i bawb."



## Y Galeri

Cardiau lluniau cerfluniau cardiau cyfarch cardiau post ffotograffau a chelfyddyd gain

**Gwasanaeth yn y Gymraeg**

Mae'r Galeri dan y Caffi Vista ganol Caerffili

Kazev67@gmail.com

## Pwyllgor y Papur Bro

Bob yn ail fis mae'r pwyllgor yn cyfarfod ac mae'r cyfarfod nesaf

**Prynhawn Mawrth, 6ed o Fehefin am 2:15**
**Canolfan Seiloh, Ystrad Mynach**

Croeso i chi ymuno â ni.







## Hanes CwmNi

Siaradwr gwadd Mehefin - Gorffennaf 2023

**Clwb Rygbi Penallta - CF82 7EP - 7pm**



**01/06/23 - Keith Bush 'Cyfle a gollwyd - rheilffordd yr Engadine Cymreig'**
**06/07/23 - Geraint Thomas - 'Gêm Owain Glyndŵr'**

Croeso cynnes i bawb

Am ragor o fanylion
Joshua.Wheeler@coleggwent.ac.uk

Coleg Gwent

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Gwent

**Llyfrau, cardiau, CDau**

**Cysylltwch â Vikki Pearce**

Llyfrau'r Enfys

**llyfraurenfys@gmail.com**

**07956555265.**

**Galwch i'n gweld yn Ffiliffest!!**

MEHEFIN 10 JUNE 11:00 - 19:00

AM DDIM / FREE

# Ffiliffest
Gŵyl Gymraeg / Welsh Language and Cultural Festival

Menter Iaith Sir Caerffili · Mwynhau'r Gymraeg

@ CAEAU OWAIN GLYNDWR FIELDS, CAERFFILI

## Y LLWYFAN / THE STAGE

11:00
DAWNSIO GWERIN / FOLK DANCING
ALLAN YN Y FAN
12:00
MARTYN GERAINT
12:30
YSGOLION / SCHOOLS
13:30
CÔR MEIBION CAERFFILI MALE VOICE CHOIR
14:00
MORGAN ELWY A'R BAND
15:00
WONDERBRASS
16:00
PAID GOFYN
16:45
MELDA LOIS
17:30
IESTYN JONES A'R BAND
18:15
KIZZI CRAWFORD

## Y TIPI / THE TIPI

12:15
FFITRWYDD I'R TEULU / FAMILY FITNESS
13:30
KITSCH N SYNC - CRUISETOPIA
14:00
YSGOLION / SCHOOLS
14:30
SIOE BETTY CAMPBELL SHOW
15:00
STORI GYDA MAGI ANN
16:30
SGWRS GYDA ELLIS HANSH
17:30
KITSCH N SYNC - CRUISETOPIA

## STONDIN MENTER STALL

Menter Iaith Sir Caerffili

11:00-18:00
GEMAU FIDEO / VIDEO GAMING
12:00-15:00
AMSER ANNIBENDOD / MESSY PLAY
12:00-15:00
GWAWDLUNIAU / CHARIACATURES
15:00
SGWRS GYDA SION TOMOS OWEN AM CYNEFIN / CHAT WITH SION TOMOS OWEN ABOUT CYNEFIN

## AR Y MAES / ON THE FIELD

PABELL GREFFT / CRAFT TENT
ARDAL CHWARAEON / SPORT AREA
SGILIAU SYRCAS / CIRCUS SKILLS
ARDAL CHWARAE MEDDAL / SOFT PLAY AREA

MEHEFIN 10 JUNE 11:00 - 19:00
@ CAEAU OWAIN GLYNDWR FIELDS, CAERFFILI

AM DDIM / FREE

Menter Iaith Sir Caerffili · Mwynhau'r Gymraeg

Ffiliffest
Gŵyl Gymraeg / Welsh Language and Cultural Festival

## AR Y MAES / ON THE FIELD



### MARTYN GERAINT

Mae Martyn yn dychwelyd eto eleni i ddiddanu'r plant a rhieni gyda sioe ar y brif lwyfan am 12:00



### KITSCH N SYNC

Mae'r grwp perfformio yn dychwelyd gyda perfformiadau ar y maes, yn ogystal a dwy sioe 'Cruistopia' yn y Tipi



### ANTURWYR BACH

Bydd sesiynau Chwarae Bler yn stondin Menter Caerffili rhwng 12:00-15:00



### FFITRWYDD I'R TEULU

Bach o ymarfer corff cyn cinio i'r teulu cyfan gyda Winning With a Y draw yn y Tipi am 12:15



### STORI GYDA MAGI ANN

Sesiwn Stori i blant bach yn y Tipi am 15:00 a bydd Magi Ann ei hun yn dod i ymweld!



### SION TOMOS OWEN

Bydd Sion ym mhabell Menter Caerffili 12:00-15:00 - gwneud gwawdluniau / Chariacatures



### SIOE BETTY CAMPBELL

Mae cwmni Mewn Cymeriad yn dychwelyd eto eleni gyda sioe am fywyd Betty Campbell yn y Tipi am 14:30



### ELLIS LLOYD OWEN

Bydd Ellis yn cymryd drosodd cyfryngau cymdeithasol y Fenter yn ystod Ffiliffest cyn gwneud sgwrs yn y Tipi am 16:30

WWW.MENTERCAERFFILI.CYMRU


Ffiliffest
Gŵyl Gymraeg / Welsh Language and Cultural Festival
Mwynhau'r Gymraeg
NOSON GOMEDI STAND-UP
@COFFI VISTA, Y TWYN, CF83 1JL
MEHEFIN 8 JUNE
DECHRAU AM 19:30
£8
PRIYA HALL
STEFFAN EVANS
JOSH PENNAR
CARYL BURKE
WWW.MENTERCAERFFILI.CYMRU | ARCHEBU TOCYN
Menter Iaith Sir Caerffili
VISTA & CO.
EST. 1995
MENTRAU IAITH
CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND
Cyngor Dref Caerffili
Caerffili Town Council
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government